

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL ABERCONWY



ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI: GORFFENNAF 2023

Roedd y Corff Llywodraethol yn cynnwys (ar 05.07.23):

Cynrychiolwyr AALI*:	Cdd E. Owen (2022), Dr. B. Bignold (2017), Cdd S. Grady (2022).
Rhiant Lywodraethwyr:	Ms C. Ryan (2013), Mr P. Hughes (2014), Mrs K. Bond (2015), Mr M. Teasdale (2022).
Athro Lywodraethwyr:	Ms J. Hughes (2012) and Mr R. Burrows (2012).
Cynrychiolydd Staff:	Mrs J. Meredydd (2015).
Aelodau Cyfetholedig:	Mrs P. Hart (2015), Mrs H. Roberts (2016), Mr T. James (2012).

Gellir cysylltu â phob llywodraethwr trwy ysgrifennu at glerc y llywodraethwyr, Miss Lynn Jones, yn yr ysgol.

Cyfarfu'r Corff Llywodraethol fel Corff Llywodraethol Llawn ar 4 achlysur. Cyfarfu Pwyllgorau Personél a Chyllid 3 gwaith.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol ar y gyllideb, y cwricwlwm a sefydliad staffio'r ysgol yng ngoleuni'r dyraniad cyllideb a wnaed gan ALI Conwy. Mae datganiad y gyllideb ynghlwm. **Atodiad A.**

Mae aelodau unigol o'r Corff Llywodraethol wedi mynychu sesiynau Hyfforddiant Llywodraethwyr. Mae'r rhain yn cynnwys: RhCDdD (GDPR), Caethwasiaeth Fodern, Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl, Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi adolygu'r polisiau a ganlyn yn ystod 2022/23, ac yn cymeradwyo'n llawn arfer yr ysgol yn y meysydd hyn: Derbyniadau, Digwyddiadau Tyngedfennol, Gweithdrefn Gwyno, Personél, Trefniadau a Chyfrifoldebau Bygythiadau Bom, Dysgu Cyfunol, Asesu, Adolygiad Cymheiriaid, Tâl, Datblygiad a Hyfforddiant Staff, Ymdrin â Chleientiaid Parhaus a Blinderus, Addysg Deilwredig, Ystyriaeth Arbennig, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, Gwrthdaro Buddiannau, Ffonau Symudol, Gwaharddiadau, Gwrth-Ysmygu, Diswyddo, Arsylwi Gwers, Offeryn Llywodraeth, Asesiad dan Reolaeth Arholiadau, Arholiadau, Tynnu Cymhwyster, Cydnabod Dysgu Blaenorol, Gweithdrefnau Cofrestru ac Ardystio, CRB (DBS) a Fetio, Amdiffyn Plant, Rheoli ac Atal, ADY, Prosesu Geiriau, Rhifedd, ACCA, Disgyblu Staff, Cwynion, Cyflenwi ar gyfer Athrawon Absennol, Gallu, Disgyblion Dawnus a Thalentog, Hunaniaeth Rhywedd, Presenoldeb, Recriwtio a Chadw, Cwricwlwm, Iaith, Cyfathrebu a Llythrennedd, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Addysg Cyffuriau ac Alcohol, a Cynllun Wrth Gefn Arholiadau.

Crynodeb o'r Arholiadau

Mae crynodeb o ganlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer 2022 ynghlwm fel **Atodiad B.**

Cwricwlwm yr Ysgol

Mae Cwricwlwm yr Ysgol yn cwrrd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol; Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori polisiau'r Corff Llywodraethol ac Awdurdod Addysg Conwy. Mae copïau o orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisiau ysgol, a datganiad cwricwlwm Awdurdod Addysg Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol. Mae 25 o wersi yn yr wythnos; 5 gwers y dydd, pob un yn 60 munud o hyd.

Blwyddyn 7

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn newydd i ysgolion ac fe'i gweithredwyd eleni ym Mlwyddyn 7. Fe'i seilir ar gysyniad o fynd ar drywydd 'Pedwar Diben', sy'n gyffredin i holl ysgolion Cymru. Y Pedwar Diben yw ein gweledigaeth ar gyfer pob plentyn; eu bod yn dod yn ddinasyddion uchelgeisiol, iach, creadigol a moesegol wybodus. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar ddysgu a wnaed mewn ysgolion cynradd partner ac yn datblygu ymhellach wybodaeth a medrau myfyrwyr.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae pynciau'n cael eu grwpio yn MDPH – meysydd dysgu a phrofiad. Mae chwe MDPH – *leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Dyniaethau; Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg*. Ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn cael gwersi wythnosol mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (*Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a Chymraeg*); Mathemateg, Addysg Gorfforol ac ABChI. Mae'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill yn cyflwyno eu cwricwlwm trwy ddull sy'n seiliedig ar brosiectau. Bydd disgyblion yn astudio dau brosiect ar yr un pryd am 10 wythnos cyn symud ymlaen i'r ddau brosiect nesaf. Mae hyn yn golygu y byddant, trwy Flwyddyn 7, wedi cwblhau wyth prosiect ar draws y meysydd profiad dysgu (MDAO).

Blwyddyn 8 a 9

Ym Mlwyddoedd 8 a 9 caiff y cwricwlwm ei adeiladu o amgylch gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae pob disgybl yn astudio: Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Technoleg Dylunio, Iaith Dramor Fodern, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, TGCh ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Iechyd.

Blwyddyn 10 i 11

Mae pob disgybl yn parhau i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol craidd sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Iechyd a Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion hefyd yn cael y cyfle i barhau i ddewis cyrsiau i'w dilyn ym Mlwyddoedd 10 ac 11.

Y Chweched Dosbarth, Blynnyddoedd 12 a 13

Mae cyfran helaeth o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn dychwelyd i Chweched Dosbarth Ysgol Aberconwy i ddilyn cyrsiau blwyddyn neu ddwy flynedd. Mae'r mwyafrif yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at dri phwnc Safon Uwch neu Btec ynghyd â Bagloriaeth Cymru Uwch. Cynigir ystod eang o gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau ar y cyd â darparwyr eraill. Mae LINC Conwy yn darparu ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol yn ychwanegol at hyn.

Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nod y polisi Cefnogi Dysgu yw adeiladu ar ddull 'Cynhwysol' o ddiwallu anghenion myfyrwyr. Mae'r strwythurau presennol sydd ar waith i wneud hyn yn cynnwys:

- Rhaglen Ymyrraeth Cefnogi Dysgu.
- Rhaglen Catchup ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Cynhwysiant Cymdeithasol – Canolfan Cefnogi Myfyrwyr (Hafan)
- Cefnogaeth ddynodedig yn y dosbarth ar draws y cwricwlwm
- Canolfan Dyslecsia Aberconwy (ABCD)
- Hwb ASD 'Pontio' yn cynnig blwch offer, cofrestru a chlybiau egwyl/cinio..
- Cefnogaeth 1:1 a grwpiau bach.
- Darpariaeth sirol ar gyfer disgyblion ag ASD (Tegfan)
- Grŵp cofrestru Nurture ym mlwyddyn 7 – Morfa Bach.

Mae'r ysgol yn y broses o drosglwyddo i'r system ADY newydd ac ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i drosglwyddo'r blynnyddoedd mandadol (Blynnyddoedd 8, 10, 11) i'r system newydd lle mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen darpariaeth ychwanegol i'r hyn sydd ar gael i bawb drwy ddarpariaeth gyffredinol yn symud i CDU (Cynllun datblygu unigol). Bydd y grŵp blwyddyn sy'n weddill yn symud ymlaen i'r system newydd erbyn diwedd tymor yr haf 2025.

Mae gan y gofrestr ADY gyfansymiau fel y nodir yn y tabl isod ar gyfer y flwyddyn 2022-2023:

Blwyddyn	Hen System ADY				System ADY Newydd		Cyfansymiau
	A	C	Cytundeb	D	CDU Ysgol	CDU ALI	
7	12	8	7	4	1	2	34
8	System ADY Newydd				12	10	22
9	6	3	5	8	2	0	24
10	System ADY Newydd				7	10	17
11	System ADY Newydd				5	5	10
12	2	1	1	0	0	0	4
13	4	0	2	0	0	0	6
Cyfansymiau	24	12	15	12	27	27	117

Mae'r ysgol yn defnyddio Eclipse, sef y feddalwedd a ddyluniwyd i sicrhau bod dogfennaeth ADY sy'n bwydo i mewn i'r CDUau (Cynlluniau Datblygu Unigol) newydd a fydd yn disodli'r hen CAUau (cynlluniau addysg unigol) yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn cynnwys tystiolaeth gywir.

Mae'r system ADY newydd yn pwysleisio mwy o gydweithio, a phwysigrwydd darparu cefnogaeth a gwybodaeth i sicrhau bod plant, a'u teuluoedd yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mrs Medwen Brookes yw'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Ms C. Ryan yw'r Llywodraethwr a enwyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig.

Disgyblion ag Anableddau

Mae anghenion disgyblion ag anghenion dysgu neu anabledd arbennig yn cael eu hystyried wrth drefnu a rheoli amgylchedd dysgu Ysgol Aberconwy. Gwneir defnydd priodol o wahaniaethu yng nghynnwys a dull cyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion dynodedig.

Mae pob rhan o'r ysgol yn hygyrch i fyfyrwyr anabl gyda phwyntiau mynediad anabledd yn eu lle. Mae'r adeilad yn gwbl gydnaws â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae cynllun hygyrchedd llawn ar gael gan yr ysgol.

Datganiad ar Ddarpariaeth Iaith Gymraeg

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Aberconwy, gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith ar draws pob oedran a gallu. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru ac yn cyflwyno rhaglen astudio Cymraeg fel Ail Iaith (Cwrs Llawn) hyd at ddiwedd CA4.

Y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol, mae Ysgol Aberconwy yn anelu at sicrhau ethos sy'n gwireddu potensial cyfathrebol Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac yn creu cyfleoedd i bwysleisio treftadaeth Cymru. Felly, mae datblygu cymuned ysgol ddwyieithog yn flaenoriaeth.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i barhau i astudio Cymraeg fel iaith gyntaf hyd at lefel TGAU. Cylchredir rhestrau o ddysgwyr da/rhugl a nodwyd i annog yr holl staff i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, ac anogir staff i gyfarch disgyblion yn Gymraeg. Mae pob gwasanaeth yn cynnwys peth cynnwys Cymraeg ac mae'r gwasanaeth Nadolig blynyddol a digwyddiadau cerddorol yn ddwyieithog. Mae'r ysgol gyfan yn canolbwyntio'n benodol ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod wythnos flynyddol Dathlu Dewi Sant gyda gwasanaethau, gweithgareddau a chystadlaethau.

Mae gan wefan yr ysgol opsiwn Cymraeg ac mae holl lythyrau rhieni, cylchlythyrau a deunydd hyrwyddo'r ysgol yn ddwyieithog.

Mae arwyddion a phosteri dwyieithog yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg o amgylch yr ysgol, e.e. ffretur, prif fynedfa, neuadd, llyfrgell ac ati a hyrwyddir Ymadrodd yr Wythnos ar sgrin wybodaeth y disgyblion. Mae ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu cyfarch yn Gymraeg gan staff y swyddfa.

Mae'r holl ddisgyblion sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael eu gosod mewn grwpiau dosbarth LLC a neilltuir tiwtor dosbarth Cymraeg iddynt, sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Mae adnodd 'Cic i'r bore' wedi cael ei ddatblygu ar gyfer cyfnodau cofrestru blwyddyn 7 ac 8, sy'n codi ymwybyddiaeth o ddyddiadau a digwyddiadau pwysig ar y calendr Cymraeg ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau difyr. Mae 'Clwb y Caban' yn cael ei gynnal bob amser cinio, gydag ymweliadau cyson gan yr Urdd yn rhoi cyfle i ddisgyblion gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn parhau i gyflwyno enwau Cymraeg ar gyfer rhannau allweddol o'r ysgol gan sicrhau bod geiriau Cymraeg yn dod yn rhan arferol o'r iaith a ddefnyddir yn feunyddiol yn yr ysgol. Yn fwyaf diweddar rydym wedi cyflwyno enwau mynydd Cymraeg i'r gwahanol ddsbarthiadau yn Tegfan gan gynnwys Aran, Arennig, Tryfan a Siabod, ac wedi enwi'r ddwy brif iard yn 'Y Sgwâr' a 'Glanrafon'. Rydym wedi comisiynu gwaith artist Cymraeg lleol i ddylunio a phaentio murluniau ar gyfer rhannau allweddol o'r ysgol megis 'Y Porth'. Mae Luned Davies Parry, un o'r athrawon Cymraeg, wedi ysgrifennu cerdd sy'n amlygu arwyddocâd pob ardal allweddol ac mae'r rhain yn ymddangos ar y murluniau.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio ar gynllun 'Siarter Iaith' fel yr ysgol uwchradd beilot yng Nghonwy ac yn barod am yr asesiad cyntaf gan obeithio ennill y wobr efydd yn yr wythnosau nesaf. Cynlluniwyd hyn i ddatblygu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol gan ddisgyblion a staff yn ogystal ag yn y gymuned leol.

Manylion trefniadau i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol

- Unwaith eto, yn Ysgol Aberconwy roedd ystod eang o weithgareddau amrywiol ar gael yn ystod y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Rydym wedi ehangu ac adolygu ein rhaglen i gynnig amrywiaeth eang o chwaraeon bob tymor.
- Yn ystod 2022/23 rydym wedi ehangu'r ystod o weithgareddau sydd gennym i'w cynnig i bawb, ond yn enwedig merched. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau llwyddiannus gyda chlybiau Criced a Golff Conwy i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr roi cynnig ar y chwaraeon hyn. Ffynnodd ein tîm criced merched oherwydd hyn gan ennill Pencampwriaethau Gogledd Cymru.
- Cynigir cymwysterau a chyfleoedd arweinyddiaeth a gydnabyddir yn genedlaethol yn ystod amser y cwricwlwm (1st4Sport Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau) Mae'r rhain yn dechrau cael eu cyflwyno ar y cyd ag Achieve More Training. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau eithriadol sydd eu hangen ar fyfyrwyr i fod yn llwyddiannus wrth arwain gweithgareddau sy'n cefnogi ein hadran Addysg Gorfforol, megis diwrnod mabolgampau.
- Fel rhan o'n datblygiadau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ein nod fu darparu ystod eang o gyfleoedd amrywiol, gan ddatblygu hyder a chymhelliant i gymryd rhan mewn chwaraeon gydol oes. O ganlyniad, mae myfyrwyr Blwyddyn 7 wedi cael sesiynau mewn Diogelwch Dŵr ac achub bywyd ym Mhwl Nofio Llandudno; wedi profi'r Trampolinau Olympaidd sydd gennym i'w cynnig yn yr ysgol a rhoi cynnig ar chwaraeon newydd megis KinBall.
- Parhaodd rhai llwyddiannau rhagorol ar draws yr ysgol drwy'r cystadlaethau allgyrsiol a fynychwyd gan Ysgol Aberconwy:
 - Gwnaeth pob grŵp blwyddyn gais i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed Cwpan Cymru yn 2022-23.
 - Llwyddodd pob tîm ymlaen i gyrraedd yr ail rownd; gyda Blwyddyn 11 yn cystadlu yng Nghynghrair Cymru am y tro cyntaf.
 - Coronwyd tîm criced merched dan 15 yn Bencampwyr Gogledd Cymru ym mis Mehefin 2023 a chawsant gyfle i gystadlu yn Rowndiau Terfynol Rhanbarthol D15 y North West Thunder Girls.
 - Coronwyd tîm Athletau Bechgyn dan 16 yn Bencampwyr y Sir ym mis Mehefin 2023.
 - Dewiswyd Sophie Rawling a chynrychiolodd Cymru mewn Pêl-droed Dan 17 yng Ngemau Rhagbrofol Ewrop ar 4 achlysur gwahanol yng Nghroacia, Yr Iseldiroedd, Portiwgal ac Israel. Dechreuodd Sophie mewn mwyafrif helaeth o gemau i Gymru, gan roi perfformiadau gwych fel cefnwr chwith trwy gydol yr ymyrch. Mae gan Sophie 15 o gapiau Cymru o dan 15,16 a 17 oed. Mae hi bellach wedi symud i fyny i'r timau dan 19 oed.
 - Cystadlodd 10 o fyfyrwyr ym Mhencampwriaethau Traws Gwlad Eryri ym mis Ionawr 2022. Daeth Alfie Shiland ac Ewan Leonard yn 1^{af} ac 2^{il} yn y drefn honno gan fynd trwodd i gystadlu yn y Bencampwriaeth Genedlaethol yn Aberhonddu.
 - Coronwyd Jacob Edghill yn Bencampwr Naid Hir Dan Do dan 20 Cymru a daeth yn 2^{il} ym Mhencampwriaeth Naid Hir Hŷn Cymru.
 - Coronwyd Jacob Edghill, Rocco Castellanos ac Alfie Shiland yn Bencampwyr Eryri yn y Naid Hir D20, 100m D17 a'r 1500m D15 yn y drefn honno. Bydd y tri yn cystadlu dros y Rhanbarth ym Mhencampwriaeth Athletau Ysgolion Cymru ar Orffennaf 1^{af} yng Nghaerdydd.
 - Enillodd Alfie Shiland fedal arian yn ras 3000m Dan Do Cymru dan 15 oed.
 - Dewiswyd Ewan Leonard ar gyfer tîm Triathlon Cymru a daeth yn 15^{fed} yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Prydain.
 - Yn ogystal, cafodd Ewan Leonard le yn nhîm Nofio Cymru ar gyfer cystadlaethau Rhyng Sirol Prydain yn Sheffield yn dilyn llwyddiant ym Mhencampwriaethau Cymru.
 - Yn 71kt, mae Luke Corcoran wedi dod yn bencampwr pwysau canol ysgafn Cymru ar ôl ennill y rownd derfynol yng Nghaerdydd. Bu wedyn yn cynrychioli Bocsio Cymru, ac enillodd fedal aur yn cystadlu yn rowndiau terfynol Bocsio Prydain Fawr yn Motherwell. Luke yw'r pencampwr leuenctid Prydain cyntaf i ddod o Ogledd Cymru.

- Dewiswyd Lucian Barnet ar gyfer tîm bechgyn dan 18 Cymru, ac mae wedi chwarae sawl gêm gyfeillgar yn erbyn timau fel British Colleges a Wessex. Mae Lucian yn chwaraewr wrth gefn di-deithio ar gyfer y pencampwriaethau Ewropeaidd sydd ar ddod, a bydd yn chwarae yng ngŵyl EHTA a thaith Erasmus o'r Iseldiroedd yr haf hwn.
- Unwaith eto dewiswyd Shana Kelly i fod yn rhan o garfan dan 15 Cymru. Bu'n chwarae mewn nifer o gemau yn gynnar yn y tymor, gyda gemau nodedig yn erbyn Gwlad yr Haf yn Ysgol Cas-gwent lle cymerodd hi 4 wiced. Mae hi'n rhan o daith yr haf i Ddyfnaint a Chernyw.
- Mae Sam Stewart-Ball wedi profi a sefydlu ei hun ar lefel Ranbarthol a Chenedlaethol Prydain, gan gystadlu'n rheolaidd ledled y DU. Ar hyn o bryd mae Sam yn safle 33 (9fed blwyddyn gyntaf) yn y DU ar y Ffordd, a 25 (9fed blwyddyn gyntaf) ar y Trac. Yr uchafbwyntiau fel cystadleuydd blwyddyn gyntaf Dan 16 oedd;
 - 4ydd yn Ras Ffordd Pencampwriaeth Cymru
 - 4ydd ym Mhencampwriaethau CycloCross Cymru
 - 1af yng Nghynghrair CycloCross Gogledd Cymru
- Bu Bailey Spencer cystadlu ym Mhencampwriaethau Bocsio Cymru; cafodd ei guro yn rownd y 4 olaf gan gyn Bencampwr Cymru.
- Enillodd Martha Jones, Enzo Shiland-Griffiths a Lucas Thomas eu lle yn Rowndiau Terfynol Nofio Cenedlaethol Cymru.
- Dewiswyd Macie Williams i gynrychioli Cymru eto, ynghyd ag aelodau eraill o'i chlwb carate Hajime Hiro yn Llandudno, ym Mhencampwriaethau Shito Ryu Karate'r Byd ac Ewrop yn Romania.
- Bu Prif Fyfyriwr Libby Rubin yn cystadlu yng nghategori Merched dan 24, Dan 76kg ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Iau ac Is-iau Prydain yng Nghlwb Codi Gymshark, Solihull. Llwyddodd i dorri 3 record Brydeinig. Mae hyn yn golygu mai hi yw'r fenyw gryfaf, yn ei chategori, yng Nghymru erioed.
- Mae Zach Jones wedi amddiffyn ei deitl pencampwriaeth Codi Pwysau Cymru dan 12, gan ei wneud yn bencampwr Cymru ddwywaith. Bellach ef yw pencampwr presennol Cymru a Phrydain yn ei gategori a'i ddosbarth.



Bwyta'n Iach a Lles

Mae darpariaethau Iechyd a Lles iACH Ysgol Aberconwy yn cael eu hystyried yn eang fel model o arfer orau. Ni oedd un o'r ysgolion cyntaf i gyflogi arweinydd iechyd a lles ac oddi ar hynny rydym wedi ymateb i anghenion ac ymddygiadau iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff. Rydym yn ffafrio ymagwedd ataliol at ein gwaith ac mae'r 5 ffordd at lesiant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae grwpiau myfyrwyr fel grŵp iACH, y cyngor ysgol a Thîm Chwaraeon Aberconwy hefyd yn arwain ymgyrchoedd iechyd strategol sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd penodol grwpiau blwyddyn neu gymdeithasol penodol.

Mae'r Youth Sport Trust wedi dewis Ysgol Aberconwy fel un o ddim ond 9 ysgol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan sy'n cynrychioli'r hyn y maent yn ei ystyried yn 'Ysgol Iach'. Rydym yn hynod falch o fod yr unig ysgol gynradd neu uwchradd yng Nghymru i dderbyn y statws ysgol hon. Ar hyn o bryd mae gennym ymchwilwyr o Brifysgol Manceinion yn gweithio gyda myfyrwyr a staff i nodi sut y gallai ysgolion eraill foddelu ein taith tuag at ddod yn 'Ysgol Iach'.

Cawsom ein dewis hefyd fel un o nifer fach iawn o ysgolion yng Ngogledd Cymru i dreialu 'Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Emosiynol a Meddwl' Llywodraeth Cymru. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod "Ysgol Aberconwy yn ysgol eithriadol sy'n cael effaith sylweddol yn y sector addysg. Mae eu hymagwedd ragweithiol at hunanasesu Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddwl a'u gwaith ym maes iechyd a lles emosiynol a meddwl yn fodel i ysgolion eraill ei ddilyn."

Mr Rhydian Jones (arweinydd Iechyd a Lles) yw'r athro cyntaf i gael ei hyfforddi fel Hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Ers hynny mae wedi hyfforddi ac achredu 72 o aelodau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu Cyngor Conwy ac Ysgol Aberconwy fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Mae holl fyfyrwyr blwyddyn 7 wedi'u hyfforddi fel cynorthwyyr cymorth cyntaf

iechyd meddwl iau yn ogystal â swyddogion cymorth cyntaf corfforol 'Ailgychwyn Calon' yn ystod eu prosiect iechyd DSP iACh.

Ysgol Aberconwy yw'r ysgol uwchradd gyntaf yng Nghymru i ennill a chael ei hailachredu gyda'r 'Safon Iechyd Corfforaethol' am ein gwaith ymyrraeth iACh gyda'n staff ysgol. Roedd yr aseswyr yn llawn canmoliaeth am sut roedd lles staff yn cael y fath flaenoriaeth yn Ysgol Aberconwy a sut roedd ein rhaglen iACh yn ganolog i flaenoriaethau ein hysgol ac yn amlwg yn ein hethos ysgol gyfan.

Rydym wedi cyflwyno ein gwaith iACh yng Nghynhadledd Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd yn ogystal ag i holl gynrychiolwyr ysgolion iach ysgolion uwchradd a chynradd Conwy. Rydym yn rhannu ein gwaith iechyd a lles gyda'n hysgolion cynradd bwydo fel bod negeseuon cyson am sut beth yw ffordd iach a chytbwys o fyw. Mae gwaith cwricwlwm newydd blwyddyn 7 yn canolbwyntio ar bwysigrwydd agwedd gyfannol at bwysigrwydd cyfartal Fy Nghorff (Iechyd Corfforol), Fy Mywyd (Iechyd Cymdeithasol) a My Mind (Iechyd Meddwl). Mae Ysgol Aberconwy hefyd wedi bod yn rhan o Rwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) Rhyngwladol fel astudiaeth achos o ysgol arfer gorau o ran y ffordd yr ydym yn ymgorffori addysg bwyd ac ysgol goedwig yn ein gwaith iACh. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi'r cyfle i ni ddatblygu ein darpariaethau IACH, ABCI ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ymhellach ac rydym yn teimlo'n gyffrous iawn am y posibilrwydd o barhau i gynnig nofio goroesi personol, trampolinio, coginio dan do/awyr agored ac ymweliadau â bwthyn Bod-silin yn ein darpariaeth cwricwlwm.

Mae myfyrwyr a staff hefyd wedi cyflwyno ein rhaglen ABChI (Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn cynadleddau cenedlaethol PIXL (Partneriaid mewn Rhagoriaeth) yng Nghaerdydd. Rydym hefyd wedi rhannu'r gwaith hwn mewn cynadleddau Erasmus lle cafwyd canmoliaeth gan y Comisiynydd Plant blaenorol, Sally Holland: "“Mae pobl ifanc, rhieni a chyflogwyr i gyd yn cydnabod y dylai addysg ymwneud â mwy na chymwysterau yn unig ... felly mae'n galonogol iawn bod y rhaglen hon yn cydnabod ac yn datblygu'r doniau, diddordebau a hawliau holl fyfyrwyr Ysgol Aberconwy”

Codi Arian Cymunedol

Mae apeliadau codi arian Ysgol Aberconwy yn parhau i fynd o nerth i nerth. Y llynedd fe wnaethom godi swm anhygoel o £3,009 tuag at Plant Mewn Angen fel rhan o'n hapêl elusen genedlaethol. Hon oedd ein blwyddyn gyntaf yn arwain apêl FirstGive blwyddyn 7 lle mae pob dosbarth blwyddyn 7 yn dewis eu helusen eu hunain i'w chefnogi. Dewiswyd Hosbis Dewi Sant, Tŷ Gobaith, Adferiad, Crohns a Colitis, Cam-drin Domestig Aberconwy, Ymddiriedolaeth Osbourne a Banc Bwyd Conwy a'u gwahodd i gynllunio gweithredu cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau codi arian ac ymwybyddiaeth. Bydd Julie Fallon (Aelod Cabinet dros Addysg) ar y panel beirniadu yn rownd derfynol FirstGive, yn dathlu holl ymdrechion myfyrwyr a dosbarthiadau cofrestru.

Yn ogystal â'r apeliadau hyn rydym wedi sefydlu partneriaeth gref gyda Banc Bwyd Conwy gydag apeliadau a chasgliadau rheolaidd. Rydym hefyd wedi partneru gyda'r Eglwys yng Nghonwy gyda dros 50 o'n teuluoedd mwyaf anghenus yn elwa o fasgedi bwyd 'Bagiau Cariad' misol yn cael eu dosbarthu i'w drws. Mae gennym fyfyrwyr a gwirfoddolwyr staff sy'n helpu gyda phacio a dosbarthu bwyd ac sy'n codi arian i sicrhau llwyddiant parhaus y gefnogaeth amhrisiadwy hon.

Dosbarth Confucius

Mae rhaglen yr ysgol a ariennir gan Lywodraeth Tsieina yn galluogi disgyblion yn yr ysgol i astudio Mandarin a diwylliant Tsieineaidd. Darperir athro gan Lywodraeth Tsieina. Mae Ysgolion Cynradd lleol hefyd yn elwa o'r cyfleuster.

Dyddiadau Tymor 2023 – 2024

TYMOR YR HYDREF 2023

*Dyddiau Hyfforddi Staff	*04/09/2023 *05/09/2023
Dechrau Tymor	06/09/2023
Cau am Hanner Tymor	27/10/2023
Agor ar ôl Hanner Tymor	06/11/2023
Diwedd Tymor	22/12/2023
GWYLIAU NADOLIG	

TYMOR Y GWANWYN 2024

*Dyddiau Hyfforddi Staff	*25/01/2024 *22/03/2024
Dechrau Tymor	08/01/2024
Cam am Hanner Tymor	09/02/2024
Agor ar ôl Hanner Tymor	19/02/2024
Diwedd Tymor	21/03/2024
GWYLIAU'R PASG	

TYMOR YR HAF 2024

*Diwrnod Hyfforddi Staff	*01/07/2023
Dechrau Tymor	08/04/2024
Calan Mai	06/05/2024
Cau am Hanner Tymor	24/05/2024
Agor ar ôl Hanner Tymor	03/06/2024
Diwedd Tymor	19/07/2024
GWYLIAU'R HAF	

Toiledau

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau helaeth a gynhelir i safon uchel iawn gan y contractwr PFI. Mae'r bloc newydd, a ddyluniwyd mewn ymgynghoriad â'r cyngor ysgol, yn darparu toiled mynediad agored o ansawdd uchel sy'n hawdd ei oruchwyllo ac sydd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda disgyblion.

Alldro

2021-22

2022-23

Costau Staff	4,200,544	5,724,834
Safle	654,356	774,884
Cludiant	13,779	10,267
Cyflenwadau & Gwasanaethau	657,376	632,127
Cyfanswm Gwariant Net	5,526,055	7,142,112
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael	5,845,505	7,516,912
Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	319,450	374,800

Adnoddau

2021-22

2022-23

Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	177,914.82	319,450
Dyraniad Cyn 16	4,565,507	5,960,183
Dyraniad Ôl-16	590,489	667,019
Dyraniad EIG	63,075	68,616
Grant Dysgu Proffesiynol	24,171	27,511
Grantiau Eraill	424,348	474,133
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar Gael	5,845,505	7,516,912
Cyfanswm Gwariant Net	5,526,055	7,142,112
Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	319,450	374,800

Gwybodaeth am Gyrchfannau

Cyrchfannau Blwyddyn 11 (2021 – 22)

Categori	Niferoedd	%
Parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith	121	90.30%
Wedi symud ymlaen i waith cyflogedig	9	6.72%
NEET	2	1.49%
Anhysbys	2	1.49%

Cyrchfannau Blwyddyn 13 (2021 – 22)

Categori	Niferoedd	%
Parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith	49	76.57%
Wedi symud ymlaen i waith cyflogedig	14	21.88%
NEET	1	1.56%
Anhysbys	0	0%